# Polisi Diogelwch Gwybodaeth

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Mae'r polisi hwn yn sicrhau Cyfrinachedd, Uniondeb ac Argaeledd Gwybodaeth a dderbyniwyd, grëwyd, a'u storiwyd gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn galluogi Heddlu Dyfed-Powys i rannu gwybodaeth â hyder; i gael mesurau diogelu addas ar waith i sicrhau cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd Systemau Gwybodaeth yr Heddlu, tra'n sicrhau bod holl rhwymedigaethau cytundebol, statudol a rheoleiddiol ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys yn cael eu bodloni.*** |
| **Rhif y polisi:** | ***020/2020*** |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Fersiwn: 1.9***<br>***Dyddiad:*** *14/03/2022*<br>***Awdur:*** [redacted]<br>***Rhesymeg:*** *Adolygiad Blynyddol* |
| **Dyddiad gweithredu:** | ***14 Mawrth 2022*** |
| **Dyddiad adolygu:** | ***14 Mawrth 2023*** |
| **Perchennog/cyswllt:** | ***Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu - Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth (IMBA)*** |
| **Cymeradwyaeth** | ***Bwrdd: Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 14/03/2022*** |
| **Cymeradwyaeth derfynol** | ***Bwrdd: Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 14/03/2022*** |
| **Ymgynghori a chymeradwyo:** | ***Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth (IMBA), TGCh, Gwasanaethau Cyfreithiol*** |
| **Fersiwn Saesneg** | ***Oes*** |

# 1. Datganiad Polisi

Amcanion y Polisi Diogelwch Gwybodaeth hwn yw sicrhau:

- **Cyfrinachedd** – mae mynediad at ddata wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd ag awdurdod priodol. Diogelir yn erbyn mynediad heb awdurdod, boed hynny'n fwriadol neu drwy esgeulustod.
- **Unplygrwydd** – mae gwybodaeth yn gyflawn a chywir, ac fe'i diogelir rhag unrhyw newidiadau heb awdurdod. Gweithredir pob system, ased a rhwydwaith yn gywir, yn unol â manyleb.
- **Argaeledd** – mae gwybodaeth ar gael ac yn cael ei chyflwyno i'r unigolyn cywir pan fydd ei hangen.
- Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau diogelwch gwybodaeth wedi'u pennu'n briodol ar gyfer unrhyw ddefnydd o wasanaeth cwmwl, yn ogystal â chadarnhad gan y darparwr gwasanaeth cwmwl ei fod yn medru cyflawni'r rolau a'r cyfrifoldebau hyn. Bydd yr heddlu'n dilyn y canllawiau a ddarperir gan y Ganolfan Genedlaethol Seiberddiogelwch mewn perthynas â diogelwch cwmwl (gweler Ganllawiau Diogelwch Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys(HDP)).
- Sicrhau gwybodaeth drwy'r gadwyn gyflenwi.
- Sicrhau y bodlonir gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.
- Sicrhau bod cynlluniau parhad busnes yn cael eu cynhyrchu, eu cynnal a'u profi hyd y bo'n ymarferol.
- Sicrhau bod hyfforddiant diogelwch gwybodaeth ar gael i bob aelod staff.
- Sicrhau yr adroddir am bob achos o dorri rheoliadau diogelwch gwybodaeth (rhai gwirioneddol a rhai yr amheuir), a sicrhau yr ymchwilir iddynt.
- Sicrhau y bydd diogelwch drwy gyfuniad priodol o reoliadau diogelwch technegol, gweithdrefnol, corfforol a phersonél.
- Sicrhau bod pob prosiect neu weithgaredd heddlu'n ystyried diogelwch gwybodaeth fel rhan o'r broses rheoli risg gyffredinol. Dylid nodi a gwerthuso unrhyw risgiau gwybodaeth a nodir, a'u cofnodi pan fod angen.

Nod y polisi hwn yw sefydlu a chynnal diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth, systemau gwybodaeth, gweithrediadau a rhwydweithiau sy'n eiddo i'r Heddlu, neu sy'n cael eu dal ganddynt, drwy:

- Adnabod gwerth asedau gwybodaeth drwy asesiad risg priodol, er mwyn deall y bygythiadau a'r gwendidau a allai eu cyflwyno i risg
- Rheoli'r peryglon hyd lefel dderbyniol

- Cydymffurfio ag unrhyw amodau cytundeb/contract partner cyflenwi neu drydydd parti sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth
- Ymrwymiad i gyflawni a chynnal achrediad o dan Bolisi Diogelwch Cymunedol Systemau Gwybodaeth Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a chefnogi codau cysylltu.
- Cynnal safonau diogelwch priodol, yn benodol gyda Fframwaith Polisi Diogelwch Llywodraeth Ei Mawrhydi.
- Sicrhau diogelwch asedau sensitif a gwybodaeth sensitif sy'n perthyn i Heddlu Dyfed-Powys ac a ymddiriedwyd iddo gan sefydliadau eraill.
- Bodloni rhwymedigaethau statudol e.e. Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU a Deddf Diogelu Data (2018).
- Sicrhau bod pob aelod staff yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a ddisgrifir yn y polisi hwn a pholisïau eraill, ac yn cydymffurfio'n llawn â hi
- Cyflwyno ymagwedd gyson tuag at ddiogelwch, gan sicrhau bod pob aelod staff yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn
- Creu a chynnal lefel ymwybyddiaeth o fewn yr Heddlu o'r angen ar gyfer Diogelwch Gwybodaeth fel rhan anhepgor o fusnes dyddiol yr Heddlu
- Diogelu asedau gwybodaeth o dan reolaeth yr Heddlu.

**Perthnasedd**

**Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny:** Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn. **Mae Diogelwch Gwybodaeth yn gyfrifoldeb POB gweithiwr.**

**Ymwelwyr â'r safle**: Bydd unrhyw adran sydd â chyfrifoldeb ar gyfer ymwelwyr â safle Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau ei bod yn rhoi gwybod i ymwelwyr am y polisi hwn a'r Safonau a'r Gweithdrefnau cysylltiedig.

# 2. Cwmpas y Polisi

O dan Arferion Proffesiynol Awdurdodedig yr Heddlu – Rheoli Gwybodaeth, mae Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu polisïau a gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth o fewn yr Heddlu, yn unol â'r canlynol:

- *Fframwaith Polisi Diogelwch y Swyddfa Gabinet*

- *Safonau diogelwch technegol Llywodraeth Ei Mawrhydi, wedi'u cynhyrchu gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (yr awdurdod technegol cenedlaethol ar gyfer Sicrwydd Gwybodaeth), a'u caffael drwy Bolisi Rheoli Risg Gwybodaeth Cenedlaethol yr Heddlu*
- *Anghenion busnes yr heddlu*

Mae cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a safonau cysylltiedig yn rhoi sicrwydd i asiantaethau partner, trydydd partïon a'r gymuned ehangach bod risgiau'n cael eu rheoli hyd lefel sy'n dderbyniol ar gyfer y gymuned plismona a diogelwch ehangach.

Prif Swyddogion, Rheolwyr Ardaloedd Plismona Lleol, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi o fewn eu meysydd, a bydd eu staff yn gyfrifol am lynu wrtho.

Disgwylir i bob gweithiwr gymryd cyfrifoldeb am y wybodaeth mae'n creu, deall ei sensitifrwydd a sicrhau ei bod yn cael ei thrin yn gywir.

# 3. Pwerau a Gofynion Polisi/Cyfreithiol

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod bod gwybodaeth yn ased sylfaenol o werth aruthrol i'r sefydliad. Er mwyn ennyn hyder y cyhoedd, lleihau risgiau i'r sefydliad a chefnogi darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel, mae Heddlu Dyfed-Powys yn benderfynol o sicrhau bod mesurau diogelwch gwybodaeth priodol yn cael eu rhoi ar waith i gadw cyfrinachedd a chywirdeb yr holl asedau gwybodaeth. Mae gan Heddlu Dyfed-Powys ddyletswydd i gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb unigol a chyfunol i gydymffurfio'n llawn â gofynion y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu gwybodaeth gan gynnwys diogelwch gwybodaeth. Mae deddfwriaeth yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990
- Deddf Diogelu Data 2018
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989
- Deddf Cyfathrebu Electronig 2000
- Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996

Polisïau, safonau, gweithdrefnau ac arferion cysylltiedig, gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):

- Safonau a Gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Defnydd Derbyniol Heddlu Dyfed-Powys
- Fframwaith Polisi Diogelwch Swyddfa'r Cabinet (Mai 2018)
- Polisi Seiberddiogelwch Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Cyfryngau Symudadwy Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Rhannu Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Diogelu Data Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Rhyddid Gwybodaeth Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Rheoli Cofnodion Heddlu Dyfed-Powys
- Polisi Asesu Effaith Diogelu Data Heddlu Dyfed-Powys
- Amserlen Cadw a Dinistrio Heddlu Dyfed-Powys – Adran 23 Rheolau Sefydlog
- Arfer Proffesiynol Awdurdodedig (APP) y Coleg Plismona – Rheoli Gwybodaeth – Sicrwydd Gwybodaeth

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w gwarchod o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oedran; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhyw; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried, wrth arfer eu swyddogaethau, yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil: dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu sy’n berthnasol i’r nodwedd hon.

Mae cynnal **asesiad o effaith ar gydraddoldeb** yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ar bobl mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB WEDI'I GWBLHAU

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] - Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a Sicrwydd |
| **Adran:** | Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth (IMBA) |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 11/02/22 |

## TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 14/02/2022 |

# 4. Opsiynau a Dewisiadau wrth Gefn

**Cyfrifoldebau am Ddiogelwch Gwybodaeth**

Mae Diogelwch Gwybodaeth yn gyfrifoldeb a rennir gan holl aelodau'r Heddlu, ond yn y pen draw, mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r **Prif Gwnstabl**. **Yn rhinwedd ei swydd fel Rheolydd Data, bydd y Prif Gwnstabl yn rhoi mesurau technegol a threfniadol priodol ar waith i sicrhau ac i allu dangos bod prosesu'n cael ei wneud yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.**

**Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth:** Yr **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth** sydd â'r cyfrifoldeb o ddeall sut y gallai amcanion strategol yr Heddlu gael eu heffeithio gan fethiannau yn y defnydd diogel o systemau gwybodaeth ac asedau'r sefydliad. Yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth sydd â'r cyfrifoldeb sylfaenol am benderfynu ar gyfranoledd mesurau diogelwch yn erbyn gwendidau er mwyn lliniaru risg.

**Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a Sicrwydd:** Mae'r **Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a Sicrwydd** yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau, safonau a pholisïau diogelwch o fewn yr Heddlu. Mae'r Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a Sicrwydd hefyd yn gyfrifol am bob agwedd o ddiogelwch, rhoi cyngor a sicrwydd i orfodi'r safonau diogelwch gwybodaeth sefydledig ar gyfer diogelu Asedau Gwybodaeth yr Heddlu, yn ogystal ag ymchwilio i bob digwyddiad diogelwch gwybodaeth ac adrodd amdanynt. Bydd Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a Sicrwydd yr Heddlu'n gweithredu fel aseswr diduedd o'r risgiau y gall system wybodaeth wynebu wrth fodlonni gofynion busnes a sicrhau systemau'n ffurfiol ar ran yr Heddlu.

**Uwch Berchennog System:** Fel yr **Uwch Berchennog System**, mae Pennaeth yr Adran TGCh yn gyfrifol am roi sicrwydd i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth bod holl systemau gwybodaeth yr Heddlu sy'n prosesu gwybodaeth ddirgel yn cydymffurfio â'r gofynion fel y'u gosodwyd gan y Llywodraeth, a chyrff Rheoleiddiol eraill.

**Perchennog/Perchnogion Asedau Gwybodaeth:** Unigolion uwch/cyfrifol o fewn yr Heddlu yw **Perchnogion Asedau Gwybodaeth** sy'n berchnogion enwebedig un neu fwy o asedau a nodwyd, gan gynnwys datrysiadau a gynhelir gan gwmwl. Mae eu hangen er mwyn deall pa wybodaeth sy'n cael ei dal, beth sy'n cael ei ychwanegu a'i ddileu, sut mae gwybodaeth yn cael ei symud, a phwy sydd â gwybodaeth a pham. O ganlyniad, maent yn medru deall a mynd i'r afael â'r perygl i wybodaeth a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei defnyddio'n llawn o fewn y gyfraith er budd y cyhoedd, a rhoi sicrwydd i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth bod y mesurau diogelwch priodol mewn grym i ddiogelu eu hasedau.

**Swyddog Diogelu Data:** Mae'r **Swyddog Diogelu Data** yn gyfrifol am sicrhau bod defnydd yr Heddlu o ddata'n cydymffurfio â deddfwriaeth, rhoi gwybodaeth ac

arweiniad ar brosesu data personol, a thrin ceisiadau gan wrthrychau data sy'n arfer eu hawliau i gael mynediad at ddata, ac unioni unrhyw bryderon. Mae'r Swyddog Diogelu Data'n gyfrifol am hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am achos o dorri rheoliadau.

**Swyddog Diogelwch Technoleg Gwybodaeth:** Mae'r Swyddog Diogelwch Technoleg Gwybodaeth yn gyfrifol am amddiffyn cyfrifiaduron, rhwydweithiau, isadeiledd a data rhag unrhyw ddifrod neu fynediad heb awdurdod. Bydd y Swyddog Diogelwch Technoleg Gwybodaeth yn rhoi cyngor ynghylch safiad a phensaernïaeth diogelwch technegol.

**Gweithwyr a Phersonel nad ydynt yn Bersonel Heddlu:** Ar ôl rhoi hyfforddiant ac arweiniad cychwynnol, disgwylir i aelodau staff unigol, gan gynnwys staff dan gontract a gwirfoddolwyr yr heddlu, gydymffurfio â gofynion y polisi hwn ac arferion gweithio cysylltiedig, gan gynnwys Gweithdrefnau Gweithredu Diogelwch system benodol pan mae'r rhain mewn grym. Bydd pob defnyddiwr system yn cydymffurfio â'r gofynion diogelwch sydd mewn grym ar hyn o bryd, a byddant hefyd yn sicrhau y cynhelir cyfrinachedd, unplygrwydd ac argaeledd y wybodaeth y maent yn ei defnyddio i'r safon uchaf. Gall methu â gwneud hyn arwain at gamau disgyblu.

**Rheolwyr Llinell/Goruchwylwyr:** Mae rheolwyr llinell/goruchwylwyr yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau diogelwch yn cael eu dilyn er mwyn gwarchod yr amgylchedd ffisegol lle mae gwybodaeth yn cael ei phrosesu neu ei chadw. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff parhaol, staff dros dro a chontractwyr yn ymwybodol o'r polisi diogelwch gwybodaeth a safonau cysylltiedig sy'n berthnasol yn eu meysydd gwaith, eu cyfrifoldebau personol am ddiogelwch gwybodaeth, a sut i gael mynediad at gyngor ar faterion diogelwch gwybodaeth. Yn ogystal, cyfrifoldeb y rheolwr llinell yw sicrhau bod pob aelod staff yn gwybod sut i adrodd am achos o dorri rheoliadau diogelwch.

## COD MOESEG

Mae'r egwyddorion Cod Moeseg canlynol yn berthnasol ar gyfer y polisi hwn:

- Atebolrwydd - Yr ydych yn atebol am eich penderfyniadau, eich gweithredoedd a'ch esgeulustod.
- Unplygrwydd – Yr ydych bob amser yn gwneud y peth yn iawn.
- Gonestrwydd – Yr ydych yn eirwir a dibynadwy.
- Didwylledd – Yr ydych yn agored a thryloyw yn eich gweithredoedd a'ch penderfyniadau.
- Anhunanoldeb – Yr ydych yn gweithredu er budd y cyhoedd.

**COD MOESEG - TYSTYSGRIF GYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Coed Moeseg ac fe'i hadolygwyd ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol a bernir ei fod yn cydymffurfio â'r Cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] – Swyddog Diogelwch Gwybodaeth a Sicrwydd |
| **Adran:** | Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfiaeth (IMBA) |
| **Llofnodwyd:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 14/02/2022 |

# 5. Gweithredu ac adolygu

Mae'r **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth** a'r **Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth** yn cael gwybod am statws diogelwch gwybodaeth yr Heddlu drwy gyfarfodydd ac adroddiadau rheolaidd.

Mae'r polisi hwn yn destun archwiliad gan archwilwyr mewnol neu allanol yr heddlu, a bydd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ardystio ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus a Pholisi Safon Cymunedol Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu.

Mae'r **Swyddog Diogelwch Gwybodaeth yr Heddlu**, sy'n gyfrifol am y polisi hwn, yn diweddaru'r polisi yn unol â newidiadau perthnasol mewn deddfwriaeth, Safonau Diogelwch Gwybodaeth, gofynion cysylltiad neu safonau perthnasol eraill.

**Mae cydymffurfiaeth â'r polisi hwn yn cael ei fonitro drwy:**

- Adrodd am ddigwyddiadau a gweithdrefnau dwysau
- Archwiliadau diogelwch gwybodaeth mewnol
- Archwiliadau annibynnol
- Archwiliadau Diogelu Data

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Mae adran 19 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad ar yr Heddlu i gyhoeddi pob polisi ar wefan yr Heddlu. Polisïau yw pam rydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau yw sut rydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn amddiffyn prosesau gorfodi'r gyfraith ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Pan fydd dogfen bolisi a gweithdrefn gyfun yn cael ei chynhyrchu mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Heddlu gyhoeddi'r adran bolisi ac asesu'r rhan sy'n cynnwys y weithdrefn er mwyn sicrhau na chyhoeddir unrhyw wybodaeth sensitif. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiofyn fydd bod polisi a'i ddogfen weithdrefn ategol yn cael eu cynhyrchu ar wahân.

Mae'n ofynnol felly adolygu'r ddogfen hon i cadarnhau ei haddasrwydd i'w chyhoeddi. Nodwch isod a yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y bydd datgelu yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddiad hwnnw'n ei achosi gan amlygu'r adrannau perthnasol yn y ddogfen. Lle credir y byddai datgelu'n achosi niwed, dylid anfon y ddogfen at yr Uned Ddatgelu i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi | Ydy/Nac ydy | Dyddiad | Llofnod |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydy | 14.02.22 | [redacted] |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol, rwyf wedi nodi'r adrannau nad wyf yn credu eu bod yn addas i'w datgelu ac rwyf wedi nodi isod y niwed a fyddai'n cael ei achosi wrth gyhoeddi. | | | |

**Amlinelliad o unrhyw niwed a nodwyd yn y cyhoeddiad:**

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth - i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**
(Dim ond yn ofynnol os yw'r awdur yn credu y byddai datgelu’n achosi niwed)

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydy/Nac ydy** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w datgelu yn rhannol a gwnaed y golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn ar gyfer y cyhoedd. | | | |

Ar ôl cynnal adolygiad, dylai’r Swyddog Datgelu Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen at awdur y polisi ac ac ôl ei chymeradwyo, dylid cyhoeddi’r ddogfen o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylid dwyn unrhyw newidiadau i'r ddogfen yn y dyfodol i sylw'r Uned Ddatgelu, fel sy'n briodol.

## Rheoli Fersiynau Llawn

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Rhesymeg |
|---|---|---|---|
| 1 | 15/10/13 | [redacted] | Wedi'i ailysgrifennu gan ymgorffori templed polisi newydd yr Heddlu |
| 1.2 | 26/03/14 | [redacted] | Diwygiad ynghylch reoli cyfrinair |
| 1.3 | 02/12/14 | [redacted] | Diwygiad ynghylch colli dyfeisiau symudol a chardiau sweip. |
| 1.4 | 30.12.15 | [redacted] | Adolygiad Blynyddol – gan gynnwys diwygiadau |
| 1.5 | 03.08.17 | [redacted] | Adolygiad Blynyddol |
| 1.6 | 15.05.18 | [redacted] | Adolygu Polisi o ganlyniad i weithredu Dosbarthiadau Diogelwch y Llywodraeth – gan gynnwys diwygiadau, gan ymgorffori Templed polisi newydd yr Heddlu. |
| 1.7 | 17.12.18 | [redacted] | Cynnwys Gweithdrefn Sicrwydd Risg Gwybodaeth gyda 14.3 |
| 1.8 | 03.10.20 | [redacted] | Templed Polisi HDP newydd |
| 1.9 | 14.02.22 | [redacted] | Adolygiad Blynyddol – Adolygiad Amserol gan gynnwys diwygiadau |
| | | | |
| | | | |